# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd R Goode** **Ward: Nant-y-moel**

**Plaid: Llafur Cymru a'r Blaid Gydweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Nant-y-moel ar 5 Mai 2022. Cefais fy mhenodi hefyd i swydd yn y Cabinet ym mis Mai 2022, yn Aelod Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol (ers hynny rwyf wedi newid portffolios ym mis Mai 2023 i'r Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio).

Roedd gan fy mhortffolio cabinet gyfrifoldeb am y canlynol (ymhlith eraill):

- Tai a Digartrefedd
- Hamdden a Diwylliant
- Cydraddoldeb
- Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir
- Gwasanaeth Cwsmeriaid, Gwasanaeth Democrataidd a Gwasanaethau Cyfreithiol/Cofrestrydd

Gwasanaethais i ar y byrddau / pwyllgorau canlynol (ymhlith eraill):

- Pwyllgor y Cabinet dros Gydraddoldeb (Cadeirydd)
- Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet
- Cydbwyllgor y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (Is-gadeirydd)
- Bwrdd Cynghori Awen
- Bwrdd Cynghori Halo
- Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe

Rwyf wedi mynd i holl gyfarfodydd y Cyngor a'r cabinet, yn ogystal â nifer o gyfarfodydd craffu a chyfarfodydd uwch lefel pwyllgorau yn ôl yr angen. 94% oedd fy nghyfradd presenoldeb ffurfiol, gan fod rhaid i mi golli un o gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet, rhoddwyd ymddiheuriadau ar y pryd.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 130 o ymholiadau/ceisiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â llawer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

| |
|---|
| Mynychais hefyd a chwblhau Cwrs Arweinyddiaeth CLlLC i wella fy mherfformiad yn gynghorydd arnoch chi a deall yn well sut i weithio gyda gwahanol randdeiliaid, sefydliadau a chymunedau.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am fy ngweithgareddau, gan gynnwys fy natganiadau o ddiddordeb a'm cofnod pleidleisio gweler yma. |
| **Gweithgarwch yn yr Etholaeth**<br><br>Rwyf wedi gweithio'n agos gyda llawer o grwpiau gwirfoddol, sefydliadau cymunedol a thrigolion dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu cynlluniau a helpu i ddod o hyd i gyfleoedd newydd i'n hardal a'n heconomi leol.<br><br>Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd ward rheolaidd yn ogystal â chyfarfod cymunedol agored ym mis Chwefror i roi cyfle i bobl rannu eu gobeithion a'u huchelgeisiau ar gyfer Cwm Ogwr â mi.<br><br>Yn dilyn marwolaeth drist Ken Davies, rwyf wedi cymryd yr awenau yn Gadeirydd Canolfan Gymunedol Goffa a Chlwb Bechgyn a Merched Nant-y-moel.<br><br>Rwyf hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Cwm Ogwr.<br><br>Byddaf yn aml yn bresennol yn y Pantri Bwyd yn y Neuadd Goffa ar fore Iau ynghyd â sefydliadau eraill i roi 'siop un stop' i breswylwyr am gymorth a gwybodaeth. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Ar hyn o bryd rwy'n gweithio'n agos gyda thrigolion i ddatblygu cynlluniau i droi hen barc chwarae yn y Cwm yn ardd gymunedol i ddarparu cyfleoedd dysgu a lle chwarae i blant yr ardal.<br><br>Yn aelod lleol, rwyf wedi gwthio dros sefydlu cynllun adfywio ar gyfer cymoedd Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi bod yn llwyddiannus, ac mae gwaith bellach wedi dechrau ar greu'r cynllun a fydd, gobeithio, yn gwneud llawer i wella bywydau pawb sy'n byw yng Nghwm Ogwr. |
| **Gweithgareddau/ Materion Eraill**<br><br>Rwy’n llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Nant-y-moel ers mis Tachwedd 2022. |
| **Y Cynghorydd R Goode** **Dyddiad: 28/06/2023** |